# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r gorchymyn hwn yn darparu bod darpariaethau penodol yn Neddf Safonau Gofal 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001) yn dod i rym ar 26 Awst 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cychwyn paragraff 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2000 ond nid yw'n darparu ar gyfer cychwyn adran 117(1) sy'n cyflwyno Atodlen 5. Er bod cychwyn adran 117(1) yn ffurfioldeb angenrheidiol, mae'n arwyddocaol ar ben hynny oherwydd y ddarpariaeth mewn perthynas â'r Ddeddf Ddehongli a geir yn adran 117(1). Er bod adran 117(1) wedi'i chychwyn gan y gorchymyn Rhif 3 cynharach, yr oedd hynny yn gyfyngedig i effaith adran 117(1) mewn perthynas â darpariaethau Atodlen 5 a gychwynnwyd gan y gorchymyn hwnnw.

Gan hynny, dylai Erthygl 2(2)(h) o'r gorchymyn presennol gynnwys darpariaeth ychwanegol fel a ganlyn –

> "(l) Paragraff 3 o Atodlen 5 (darpariaethau trosiannol ac eithriadau) ac adran 117(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â hi.".

Byddai diwygiad yn y geiriau uchod (neu rai tebyg) yn briodol i'w gynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

Cyhyd â bod Memorandwm Cywiriadau priodol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad mewn perthynas â'r mater uchod, nid oes dim pwyntiau y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae'r paragraff agoriadol yn cyfeirio at y gorchymyn cychwyn sy'n cael ei wneud mewn perthynas â Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001. Er hynny, mae'n ymddangos bod cynnwys "Rhif 1" yn y teitl fel y'i henwir yn y paragraff hwn yn anghywir.

**Nodyn ar y gorchmynion cychwyn blaenorol**

Mae cyfeiriadau at OS penodol yn y paragraff agoriadol yn dal ar ôl i'w cwblhau.

Yn y tabl cyntaf mae'r dyddiadau ar gyfer adran 39 yn dal ar ôl i'w cwblhau.

**Erthygl 2(2)(a)(b)(dd)(g)(ng)**

Mae'r darpariaethau sy'n cael eu cychwyn fan hyn yn ddarpariaethau yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru. Byddant yn cael eu cynnwys felly gan y gorchymyn cychwyn sy'n cael ei wneud o dan y Ddeddf honno. Mae'r cwestiwn yn codi felly a yw'n angenrheidiol neu'n briodol bod y gorchymyn presennol yn cychwyn y darpariaethau hynny. Serch hynny, o dderbyn mai dim ond cael eu cychwyn y mae'r darpariaethau cysylltiedig yn adran 73, 74, 76, 77 a 78, derbynnir ei bod yn briodol cychwyn yr adrannau a'r atodlenni sy'n cael eu mewnosod gan Ddeddf 2001 yn y gorchymyn cychwyn presennol i osgoi ansicrwydd.

**Mick Bates AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

3 Gorffennaf 2001